**Dyddiad:** Gwener, 2 Chwefror 2001

**Amser:** 10.30am tan 1.00pm

**Lleoliad:** Ysgol Gwernyfed, Three Cocks

# CYSWLLT IEUENCTID CYMRU

# CYFLWYNIAD

# I BWYLLGOR RHANBARTHOL

# CANOLBARTH CYMRU

# O'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

# 2 CHWEFROR, 2001

Bydd Cyswllt Ieuenctid Cymru yn cael ei gynrychioli gan:-

Christopher Hawkins - Cadeirydd Pylsedd (Pwyllgor o bobl ifanc)

Rachel Wilkins - Gwirfoddolwr - Prosiect *"Sorted"*

Veronica Wilson - Cydlynydd

Mae'r amgaeadig yn rhoddi manylion am y mudiad.

Bydd y cyflwyniad yn dechrau gyda perspectif y bobl ifanc ar waith Cyswllt Ieuenctid Cymru ac yna edrych ar y gwaith yn fwy cyffredinol ynghyd â'r materion sy'n berthnasol i Ymestyn Hawliau.

Amcan Cyswllt Ieuenctid Cymru yw i atal camddefnyddio sylweddau a lledaenu HIV. Mae'r mudiad yn cyflawni hyn trwy addysg arwain cyfoedion, gyda phobl ifanc yn Datblygu a rhedeg y gweithgareddau i gyd o fewn y mudiad. Mae rhain yn cynnwys:-

- Penwythnosau preswyl codi ymwybyddiaeth ar gyfer pobl ifanc;
- Gweithdai a phrosiectau gyda mudiadau Ieuenctid;
- Datblygu adnoddau sy'n cael eu hysgrifennu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc a rhieni gan gynnwys taflenni a chloriau CD;
- Ymgymeryd a chynhadleddau, arddangosfeydd ac ymwneud a gweithgareddau yn genedlaethol yng Nghymru, trwy Brydain ac Ewrop.
- Hyfforddiant awdurdodedig a hyfforddiant eraill ar gyfer pobl ifanc mewn sgiliau addysg gyfoedion mewn ysgolion a mudiadau Ieuenctid.
- Trefnu, Datblygu a gwerthuso y gweithgareddau yma trwy gyfres o bwyllgorau a grwpiau gweithredol.
- Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid mewn sgiliau addysg arwain cyfoedion i gefnogi prosiectau atal pobl ifanc.

Mae nature cyfranogol uchel ddwy-ieithog Cymru gyfan y mudiad yn sicrhau fod syniadau a chryfderau'r bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi yn golygu fod y canlyniadau gweithredol a'r ymateb sydyn yn sicrhau anghenion atal pobl ifanc 14 - 25 oed.

Mae'r hyfforddiant yn sicrhau fod pobl ifanc yn fedrus yn eu gwaith ac yn cael eu hadnabod trwy awdurdodi a.y.y.b. a fydd o fudd iddynt am weddill eu bywydau.

Mae gan Gyswllt Ieuenctid nifer fechan o staff (7 ar hyn o bryd) yn gweithio ar hyd a lled Cymru gyda dros 50 o wirfoddolwyr yn ymgymeryd a gweithgareddau ac mewn cysylltiad a mwy na 3000 o bobl ifanc pob blwyddyn o bob mathau o wahanol gefndiroedd.

Daw arian craidd Cyswllt Ieuenctid yn bennaf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn gweithio yn unol a Strategaeth Cymru i Frwydro Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol. Daw gweddill yr arian o Ymddiriedolaethau Elusennol ac Awdurdodau

Iechyd. Mae'r gwith yn unol a gweithredoedd eraill yng Nghymru gan gynnwys diogelwch cymunedol, cynhwysiad cymdeithasol, rhywioldeb iach, addysg a hyfforddiant a Iechyd gwell.

Cyswllt Ieuenctid Cymru 91A Ffordd Caerdydd, Caerffili, CF83 1FQ

Cwmni Cyfyngedig trwy Warant Rhif: 2698589

Rhif Elusen: 1020257

Rhif Ffon: (0129) 20 885711 Ffacs: (029) 20 888727

e-mail Youthlink@btinternet.com